I S - D D E D D F W R I A E T H

# LlC22-46

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Cyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Diwygio) (Rhif 2) 2022

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *8 Rhagfyr 2022* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ionawr 2023* |

Mae Gweinidogion Cymru yn rhoi'r Cyfarwyddydau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 19(1), 203(9) a (10) a 204(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**).

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Cyfarwyddydau hyn yw Cyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Diwygio) (Rhif 2) 2022.

(2) Daw'r Cyfarwyddydau hyn i rym ar 1 Ionawr 2023.

(3) Mae'r Cyfarwyddydau hyn wedi eu rhoi i Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre(**2**).

### Diwygiadau i Gyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Rhif 2) 2017

**2.** Mae Cyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Rhif 2) 2017(**3**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(**1**) 2006 p. 42.

(**2**) Sefydlwyd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre gan Orchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Sefydlu) 1993 (O.S. 1993/2838), a ddiwygiwyd gan O.S. 2017/912 (Cy. 223) ac O.S. 2018/887 (Cy. 176); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Cyfarwyddydau hyn.

(**3**) Fe'u diwygiwyd gan Gyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Diwygio) 2018, Cyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Diwygio) 2019, Cyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Diwygio) 2020, Cyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Diwygio) 2021, Cyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Diwygio) (Rhif 2) 2021

**Diwygiad i baragraff 2 (dehongli)**

**3.** Ym mharagraff 2 (dehongli), yn lle’r diffiniad o “plentyn dibynnol” rhodder—

“ystyr “plentyn dibynnol” (“*dependent child*”) yw person o dan 18 oed, neu rhwng 18 ac 21 oed os yw mewn addysg lawnamser;”.

**Taliadau Plant**

**4.** Ar ôl paragraff 6A (yr Ystad) mewnosoder—

“**Taliadau Plant**

**6AA.**—(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraffau (2) a (3) a phan gydymffurfir â’r gofynion yn is-baragraff (4), caniateir i berson sy’n Brif Ddarparwr Gofal ar gyfer un neu ragor o blant dibynnol i Berson Cymhwysol mewn unrhyw flwyddyn ariannol gael taliad (sydd i’w alw’n “Taliad Plant”) ar gyfer y flwyddyn ariannol honno mewn cysylltiad â’r plentyn dibynnol hwnnw neu bob un o’r plant dibynnol hynny.

(2) At ddibenion y paragraff hwn, mae person yn cael ei drin fel Prif Ddarparwr Gofal ar gyfer plentyn dibynnol i Berson Cymhwysol mewn unrhyw flwyddyn ariannol—

(a) os yw’n gyfrifol am ddarparu gofal a chymorth ar gyfer plentyn dibynnol i Berson Cymhwysol; a

(b) os yw’r plentyn dibynnol y cyfeirir ato yn is-baragraff (2)(a) fel arfer yn byw gydag ef;

yn y flwyddyn ariannol honno.

(3) Pan fyddai gan ddau berson neu ragor hawlogaeth i gael Taliad Plant mewn cysylltiad â’r un plentyn dibynnol i Berson Cymhwysol yn yr un flwyddyn ariannol, dim ond un ohonynt sydd i gael taliad.

(4) Y gofynion yw bod person sy’n Brif Ddarparwr Gofal—

(a) wedi gwneud cais i gael Taliad Plant; a

(b) wedi darparu, ar gyfer pob plentyn dibynnol i Berson Cymhwysol y gwnaed cais mewn cysylltiad ag ef,—

(i) tystysgrif geni’r plentyn dibynnol;

(ii) prawf o statws addysgol y plentyn dibynnol pan fo’r plentyn dibynnol rhwng 18 ac 21 oed; a

---

a Chyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Diwygio) 2022.

(iii) cadarnhad bod y plentyn dibynnol fel arfer yn byw gydag ef yn y flwyddyn ariannol honno.

(5) Mae Taliad Plant yn daladwy ar y gyfradd a nodir yn is-baragraff (6).

(6) Y gyfradd ar gyfer Taliad Plant sy'n daladwy mewn cysylltiad â phlentyn dibynnol i Berson Cymhwysol yw—

(a) mewn achos pan mai plentyn dibynnol i Berson Cymhwysol, mewn unrhyw flwyddyn, yw'r unig blentyn dibynnol neu, os nad ef yw'r unig blentyn dibynnol, mai ef yw'r plentyn dibynnol hynaf y mae Taliad Plant yn daladwy mewn cysylltiad ag ef, taliad o £3,000; a

(b) mewn unrhyw achos arall, taliad o £1,200."

*Yr Athro Chris Jones*
Y Dirprwy Brif Swyddog Meddygol, Llywodraeth Cymru, o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

Dyddiad 8 Rhagfyr 2022